Diolch am Weddi'r Arglwydd

Caneuon Ffydd: Rhif 156

Diolch am Weddi'r Arglwydd,
diolch i'r hwn a'i rhoes
yn llwybyr i ni ddyfod
at Dduw, ym more oes;
diolch am gael ei dysgu
a'i hadrodd yn ein hiaith,
diolch am ei goleuni
i'n tywys ar ein taith.

Diolch am fodd i wybod
na phalla gofal Duw,
mae gair yr Iesu'n ddigon,
gwrandäwr gweddi yw;
diolch fo gair ein calon
a diolch fyth fo'n llef
wrth ufuddhau i'r Iesu
a dweud ei weddi ef.

T. ELFYN JONES

MYFYRDOD

Faint ohonom, mewn gwirionedd, all ddweud ein bod wedi deall Gweddi'r Arglwydd pan ddysgwyd hi inni fel plant? Mae gan lawer ohonom atgofion o adrodd pethau digon rhyfedd, rwy'n siŵr, wrth gydadrodd Gweddi'r Arglwydd!

Diolch am gael ei dysgu ym more oes a wna Elfyn Jones. O gofio mai patrwm o weddi ar gyfer ei ddisgyblion y bwriadodd Iesu iddi hi fod, mae hi'n arweiniad inni ar gyfer ein gweddïo i gyd. Does dim yn well na meithrin arferion da yn ifanc, a pha arfer gwell y gallwn feddwl amdano na'r arfer o weddïo yn gyson gyda Gweddi'r Arglwydd yn batrwm ar ein cyfer? Yn y 69 o eiriau a gynhwysir ynddi yn yr Hen Gyfieithiad mae hi'n cyflwyno patrwm inni sy'n cyffwrdd â phob agwedd ar weddi. Mae hi'n cynnwys pob dim y mae angen inni ei wybod am weddi am mai Iesu a ddewisodd

y geiriau – 'diolch i'r hwn a'i rhoes'.

Ond nid gweddi i'w hailadrodd yn ddifeddwl yw hi; oni fu i Iesu rybuddio'i ddisgyblion rhag 'pentyrru geiriau fel y mae'r Cenhedloedd yn gwneud'? (Mth. 6:7). Ystyriwn Weddi'r Arglwydd fel man cychwyn y daith yn hytrach na'i phen draw, oherwydd un peth ydy gwybod Gweddi'r Arglwydd a gallu ei hadrodd ar ein cof, peth arall ydy gwybod sut i weddïo. Mae hi'n ein cyfeirio i lwybrau gweddi, ac mae ein diolch am bopeth sydd yn ein cyfeirio at y llwybrau hynny am ei fod yn 'oleuni i'n tywys ar ein taith'.

Gallem ysgrifennu'n helaeth ar y weddi hon, ond beth am edrych ar yr hyn y dylem ei gofio 'wrth ufuddhau i'r Iesu a dweud ei weddi ef '. Fel y dywedodd rhywun:

'Ni allaf ddweud "Ein" os wyf yn byw er fy mwyn fy hun;
ni allaf ddweud "Tad" os nad wyf yn ceisio byw fel ei blentyn;
ni allaf ddweud "yr hwn wyt yn y nefoedd" os nad wyf yn ceisio trysorau yno;
ni allaf ddweud "sancteiddier dy enw" os nad wyf yn ceisio sancteiddrwydd;
ni allaf ddweud "deled dy deyrnas" os nad wyf yn gwneud popeth a allaf i'w hyrwyddo;
ni allaf ddweud "dyro inni heddiw ein bara beunyddiol" os wyf yn anonest neu'n hunanol;
ni allaf ddweud "maddau i ni ein dyledion" os wyf yn dal dig yn erbyn rhywun;
ni allaf ddweud "nac arwain ni i brofedigaeth" os wyf yn mynnu fy rhoi fy hun ar lwybr temtasiwn;
ni allaf ddweud "gwared ni rhag drwg" os nad wyf yn gwisgo arfogaeth Duw;
ni allaf ddweud "eiddot ti yw y deyrnas a'r nerth a'r gogoniant" os nad wyf yn rhoi i'r Brenin y ffyddlondeb sy'n iawn iddo ei gael;
ac ni allaf ddweud "yn oes oesoedd" os yw fy holl agwedd at fywyd wedi ei gyfyngu i bethau tymhorol.'

GWEDDI

Ein Tad, diolchwn am Weddi'r Arglwydd, ond po fwyaf y sylwn arni, mwyaf ein hangen am dy gymorth i ddweud y patrwm hwn o weddi a roddodd Iesu i'w ddisgyblion. Dysg i ni dy lwybrau. Er mwyn Iesu. Amen.